Cofnodion Cyfarfod Cyffredin **CYNGOR TREF RHUTHUN**
a gynhaliwyd trwy gyfrwng fideo gynadledda Zoom nos Lun, 17 Mai 2021 am 7:00pm.

PRESENNOL: Cynghorwyr Heather Williams (Maer), Menna Jones (Dirprwy Faer)
Y Cynghorwyr Stephen Beach, Jim Bryan, Christine Ellis, Gavin Harris, Ken Hawkins, John Wynne Hughes, Ethan Jones, Ian Lewney, Jabez Oakes, Robert Owen-Ellis, Anne Roberts, Mike van der Eijk ac Ifan Wyn.
Y Cynghorwyr Sir Bobby Feeley, Huw Hilditch-Roberts ac Emrys Wynne.

13. YMDDIHEURIADAU
Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

14. DATGAN BUDDIANNAU
Datganodd y Cynghorydd Gavin Harris fuddiant personol a rhagfarnus yn yr eitem Rhan 2 – Ymateb i geisiadau yn dilyn cyfarfod canfod ffeithiau.

15. DIWEDDARIAD GAN Y RHINGYLL RICHARD EVANS
Croesawodd y Maer y Rhingyll Richard Evans, sy'n gofalu am blismona cymunedol yn Rhuthun yn awr, i'w gyfarfod cyntaf gyda Chyngor Tref Rhuthun. Diolchodd i'r aelodau am y cyfle i gyflwyno ei hun. Cytunodd y byddai'n mynychu'n chwarterol o hyn ymlaen, gan ddarparu adroddiad cryno i aelodau cyn y cyfarfod.
PENDERFYNWYD: *croesawu cyfraniad y Rhingyll Evans ac ailddrechrau cael Plismona Cymunedol fel eitem sefydlog chwarterol ar yr agenda o gyfarfod mis Medi 2021 ymlaen.*

16. ADRODDIAD Y MAER
Roedd y Maer wedi amlinellu'n digwyddiadau y bu ynddynt yn y Cyfarfod Blynyddol ar 10 Mai 2021.

17. ADRODDIADAU'R AELODAU

Cyng. Heather Williams (Dirprwy Faer)	Cyfarfod gyda Rheolwr yr Hen Lys/Dirprwy Glerc y Dref, Cyfarfod Blynyddol Cyngor Tref Dinbych trwy gyfrwng Zoom a chyfarfod y Grŵp Cymorth Llifogydd.
Cyng. Stephen Beach	
Cyng. Jim Bryan	
Cyng. Christine Ellis	
Cyng. Ken Hawkins	Dim i'w adrodd.
Cyng. John Wynne Hughes	
Cyng. Ethan Jones	
Cyng. Menna Jones	Cyfarfod y Grŵp Cymorth Llifogydd.
Cyng. Ian Lewney	
Cyng. Jabez Oakes	
Cyng. Robert Owen-Ellis	Tair sesiwn Banc Bwyd.
Cyng. Anne Roberts	Sesiwn Stori Rhuthun trwy gyfrwng Zoom a chyfarfod y Grŵp Cymorth Llifogydd.
Cyng. Mike van der Eijk	Modiwl hyfforddiant a ddarparwyd gan Un Llais Cymru trwy Zoom.
Cyng. Ifan Wyn	Dim i'w adrodd.

18. ADRODDIAD CYNGORHWYR SIR RHUTHUN

Roedd y Cynghorydd Emrys Wynne wedi darparu adroddiad ysgrifenedig ar ran y tri chynghorydd yn cynrychioli ward Rhuthun. Darparwyd diweddariad pellach ar yr ymchwiliadau i'r allyriadau o safleoedd diwydiannol yn Lôn Gwernydd. Crybwyllwyd yr ardal blodau gwyllt arfaethedig ym Mryn Rhydd. Nid oedd y trigolion o blaid ac roedd trafodaethau'n cael eu cynnal gyda'r aelodau etholiad a swyddogion Cyngor Sir Ddinbych i ddatrys y sefyllfa.

19. COFNODION Y CYFARFOD BLYNYDDOL

PENDERFYNWYD*: derbyn a chadarnhau fod cofnodion y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd ar 10 Mai 2021 yn gofnodion cywir.*

20. COFNODION Y CYFARFOD CYFFREDIN BLAENOROL

PENDERFYNWYD*: derbyn a chadarnhau fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Ebrill 2021 yn gofnodion cywir.*

21. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

22. COFNODION Y PWYLLGOR AMWYNDERAU

Ystyriodd yr aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Mai 2021.
PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Mai 2021.*

23. COFNODION Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

Ystyriodd yr aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Mai 2021.
PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Mai 2021.*

24. COFNODION PWYLLGOR RHEOLI'R HEN LYS

Ystyriodd yr aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Mai 2021.
PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Mai 2021.*

25. AELODAU CYNGOR TREF RHUTHUN

Gofynnwyd i'r aelodau gadarnhau fod eu manylion cyswllt yn gywir.
PENDERFYNWYD*: fod manylion cyswllt aelodau Cyngor Tref Rhuthun yn gywir.*

26. AELODAETH PWYLLGORAU 2021/22

Gofynnwyd i'r aelodau drafod a chadarnhau aelodaeth pwyllgorau ar gyfer 2021/22. Gofynnodd y Cynghorydd Ethan Jones am gael bod yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu yn dilyn dyrchafiad diweddar yn ei waith a fyddai'n creu gwrthdaro buddiannau petai'n parhau ar y Pwyllgor Amwynderau. Cynigiodd y Cynghorydd Stephen Beach ymuno â'r Pwyllgor Amwynderau, chynigiodd fod yn aelod o'r Grŵp Dinesydd Da hefyd. Cytunodd y Cynghorydd Ethan Jones i fod yn aelod o Bwyllgor y Gymraeg, gyda'r awgrym y dylid ailenwi'r pwyllgor yn Bwyllgor Dwyieithrwydd, ac yn aelod o'r Is-bwyllgor Adnoddau Dynol. Cynigiodd y Cynghorydd Christine Ellis lenwi'r sedd wag ar yr Is-bwyllgor Craffu Ariannol, gyda'r Cynghorydd Gavin Harris yn dod yn aelod o'r Is-bwyllgor TGCh/Cyfathrebu.
PENDERFYNWYD*: diweddaru aelodaeth y pwyllgorau fel y nodwyd uchod, a dobsarthu'r manylion wedi'u diweddaru cyn y cyfarfod nesaf.*

27. CYNRYCHIOLAETH Y CYNGOR TREF AR GYRFF ALLANOL 2021/22

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried y rhestr cynrychiolaeth ar gyrff allanol. Cynigiodd y Cynghorydd Ethan Jones fod yn gynrychiolydd Cyngor Tref Rhuthun ar Bwyllgor Gefeillio Rhuthun, a chynigiodd y Cynghorwyr Mike van der Eijk a John Wynne Hughes fod yn aelodau Pwyllgor Rheoli Theatr John Ambrose. Gofynnwyd am gynnwys Urdd Cyfeillion Ysbyty Rhuthun ar y rhestr, gyda'r Cynghorydd Anne Roberts yn cynrychioli'r Cyngor Tref ynghyd â Gweithgor y Gofeb Rhyfel. Cytunwyd mai cynrychiolwyr y Cyngor Tref fyddai'r Cynghorydd Heather Williams, Menna Jones, Jim Bryan a Christine Ellis.

PENDERFYNWYD*: diweddaru'r rhestr fel uchod, tynnu Grŵp Llywio Rhuthun oddi ar y rhestr a gwneud ymholiadau i ganfod p'un ai yw Siambr Fasnach Rhuthun yn weithgar ac yn cyfarfod yn awr. Rhestr wedi'i diweddaru i'w dosbarthu i'r aelodau erbyn y cyfarfod nesaf.*

28. DIWEDDARIAD YNGHYLCH RECRIWTIO I SWYDD CLERC Y DREF

Roedd amserlen arfaethedig y broses recriwtio a hysbyseb drafft y swydd wedi'u dosbarthu i'r holl aelodau i'w hystyried.

PENDERFYNWYD*: y dylai aelodau anfon unrhyw newidiadau arfaethedig at Reolwr yr Hen Lys/Dirprwy Glerc y Dref fel y gallent gael eu hystyried gan gyfarfod yr Is-bwyllgor Adnoddau Dynol ar 18 Mai 2021.*

29. CYMDEITHAS TRIGOLION GLASDIR

Roedd Cymdeithas Trigolion Glasdir wedi cysylltu'r gyda'r Clerc i ddweud eu bod yn fodlon i gyfraniad o £2,300 (dwy fil tri chant o bunnoedd) gael ei gyfrannu gan Gronfa Cymorth Llifogydd Glasdir i'r gronfa cymorth llifogydd gyfredol ar gyfer triglion a effeithiwyd gan y llifogydd diweddar yn Stryd y Felin a Stryd Clwyd. Gofynnwyd am anfon llythyr diolch at y Gymdeithas am eu haelioni. Gofynnodd aelodau eraill am wirio gydag Un Llais Cymru ei bod yn briodol trosglwyddo'r arian hwn.

PENDERFYNWYD*: fod yr aelodau'n ddiolchgar i Gymdeithas Trigolion Glasdir am y weithred hon, a'i gymeradwyo mewn egwyddor, yn ddarostyngedig i gadarnhad gan Un Llais Cymru fod trosglwyddiad o'r fath yn dderbyniol.*

30. MANDAD BANC HSBC

Gofynnodd y Clerc am gadarnhad gan yr aelodau eu bod yn fodlon i'r tri llofnodwr cyfredol barhau fel llofnodwyr, sef y Maer, y Dirprwy Faer a'r Cynghorydd Gavin Harris, gydag unrhyw ddau o'r tri i lofnodi sieciau, ffurflenni ac ati.

PENDERFYNWYD*: parhau gyda'r llofnodwyr cyfredol.*

31. DATGANIAD ARIANNOL

PENDERFYNWYD*: derbyn a chymeradwyo'r datganiad ariannol am y cyfnod yn diweddu 30 Ebrill 2021.*

32. CYFRIFON I'W TALU

PENDERFYNWYD*: cymeradwyo talu'r eitemau a ganlyn:*

O gyfrif cyfredol Cyngor Tref Rhuthun:

BA	Clwb Peldroed Rhuthun	Cymorth ariannol tuag at waith draenio'r caeau peldroed	£2,500.00
BA	Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth	Adnewyddu cofrestriad rheolydd data Cyngor Tref Rhuthun	£40.00
BA	Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi	Treth incwm ac yswiriant gwladol – Mai	£678.71

BA	Hill & Roberts	Gwasanaethau cyfrifyddu a chyflogres a thanysgrifiad Sage - Mai	*	£240.00
BA	Cyngor Sir Ddinbych	Cost is-etholiad y Cyngor Tref	*	£7,088.16
BA	Kate Harcus	Treuliau – goriadau'r Hen Lys, llyfr Damweiniau/Cymorth Cyntaf a phecyn Cymorth Cyntaf a sachau gwastraff masnachol		£53.40
BA	Sandra Williams	Cyflog yn ddyledus – Ebrill a Mai 2021		£93.81
BA	Sandra Williams	Ad-daliad tanysgrifiad Microsoft Office	*	£18.96
	Llanfwrog CIC	Gwasanaeth torri glaswellt – Mai 2021		£554.76
	Cyng. Heather Williams	Lwfans y Maer – rhandaliad cyntaf		£600.00
	Cyng. Menna Jones	Lwfans y Dirprwy Faer – rhandaliad cyntaf		£150.00
	Marian Rees	Cyfieithu ar y pryd – Cyfarfod Blynyddol Mai 2021	*	£24.00
	Eglwys Sant Pedr	Trydan a ddefnyddiwyd ar gyfer llifoleuo tŵr Eglwys Sant Pedr		£1,113.18
O gyfrif Yr Hen Lys Cyngor Tref Rhuthun:				
BA	BT Business	Gwasanaeth ffôn Cwmwl a band eang	*	£67.19

33. CYFARFODYDD Y CYNGOR TREF – TREFNIADAU'R DYFODOL

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried sut y bydd cyfarfodydd y Cyngor a phwyllgorau'n cael eu cynnal yn y dyfodol. Roedd rhai aelodau am i'r cyfarfodydd gael eu ffrydio'n fyw ar Facebook eto, yn hytrach na chynnig mynediad trwy ddolen Zoom yn unig i'r cyhoedd.

PENDERFYNWYD*: parhau i ddarlledu cyfarfodydd trwy ffrydio'n fyw ar Facebook ac i'r Gweithgor TGCh ystyried y gofynion ar gyfer galluogi mynediad i'r cyhoedd i gyfarfodydd hybrid yn y dyfodol.*

RHAN DAU

Penderfynwyd trafod yr eitem isod yn breifat, oherwydd datgelu tebygol gwybodaeth sensitif. Gadawodd aelodau'r cyhoedd a'r Cynghorydd Harris y cyfarfod ar y pwynt hwn.

34. YMATEB I GEISIADAU'N DILYN CYFARFODYDD CANFOD FFEITHIAU

Ystyriodd yr aelodau'r ceisiadau a'r cyngor a dderbyniwyd gan Un Llais Cymru.

PENDERFYNWYD*: drafftio llythyr ymateb, i'w ddosbarthu i'r aelodau ac Un Llais Cymru, cyn ei anfon at gynrychiolwyr Three Feathers Ltd.*

35. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD*: cadarnhau mai dyddiad y cyfarfod cyffredin nesaf fydd nos Lun, 21 Mehefin 2021 am 7pm.*